

PERLLANNAU YN HENFAES

FFERM ARDDANGOS
CALU
FFEITHLEN
Mawrth 2010



RHAGARWEINIAD

Mae tocio'n rhan hanfodol o reoli perllannau trwy bob cyfnod o oes y coed ffrwythau.

Mae tocio'r coed pan fyddant yn ifanc yn sicrhau eu bod yn datblygu yn y modd mwyaf addas ar gyfer y system gynhyrchu y mae'n rhan ohoni.

Mae tocio'n rheolaidd yn cynnal cynhyrchiad y ffrwythau am lawer o flynyddoedd. Gellir tocio er mwyn dylanwadu ar siâp y goeden, ac y benderfynu ai ar gynhyrchu ffrwythau ynteu ar gynhyrchu pren y canolbwyntir egni'r coed yn bennaf.

Mae tocio adferol yn fedr arbennig sydd ag angen mawr amdano yng Nghymru oherwydd y nifer fawr o berllannau diffaith neu led-ddiffaith. Gall tocio adferol wneud hen berllannau'n gynhyrchiol o'r newydd neu, os yw'r coed y tu hwnt i adferiad, gall tocio adferol fod yn gymorth i gynhyrchu pren ifanc ffres y gellir bridio coed newydd o'r un rhywogaeth ohono.

Ar 2 Mawrth 2010, trwy'r Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth ar Reolaeth Tir, dan nawdd Cyswilt Ffermio, cynhaliodd CALU weithdy ar docio yng Nghanolfan Ymchwil Henfaes, ger Bangor, yng Ngogledd Cymru. Arweiniwyd y gweithdy gan Ian Sturrock. Mae Ian yn gweithio gyda choed ffrwythau ers mwy na 30 mlynedd. Yn ôl pob tebyg, mae ef fwyaf adnabyddus am atgyfodi Afal Enlli, ond mae hefyd yn gweithio'n eang ym maes sefydlu, rheoli ac adfer perllannau.

Mae gan Ganolfan Ymchwil Henfaes amrywiaeth o goed ffrwythau o wahanol oed. Y rhain a roddodd y deunydd maes ar gyfer y gweithdy. Yn y berllan newydd, mae 20 o goed afalau, eirin a gellyg wedi'u plannu; y yr Ardd Goedwig, ceir amrywiaeth o goed o flwydd oed hyd at ganol oed, yn cynnwys coed eirin, gellyg ac afalau ac, yn yr hen ardd furiog, ceir perllan afalau led-ddiffaith.

Y BERLLAN NEWYDD

Plannwyd y coed newydd yn y berllan newydd yn Nhachwedd 2008. Plannwyd 8 coeden afalau, 2 goeden eirin ac un goden ellyg. Defnyddiwyd mathau lleol, gan obeithio y byddant yn addas ar gyfer yr amodau a geir yn Henfaes.

Mae'r safle wedi'i gysgodi'n rhesymol o bob cyfeiriad, gan gyfuniad o gloddiau tal, coed aeddfed ac adeiladau. Mae'r pridd yn lôm siltaiidd sy'n draenio'n rhwydd iawn, ac ynddo gyfran uchel o goblau a chlogfeini. Buwyd yn defnyddio'r fan gynt ar gyfer pori. I baratoi'r safle, chwistrellwyd y glaswellt a glyffosad ac yna ei drin. Mae'r ardal rhwng y coed wedi'i ail-hadu a glaswellt. Plannwyd y coed ar batrwm trionglog a 5m rhyngddynt.

Gwarchodwyd pob coeden â gwarchodydd troellog a'i chlymu wrth bolyn. Yn ystod y flwyddyn gyntaf, collwyd dwy goeden oherwydd difrod gan gwningod a llygod y dŵr, a fwyaodd risgl y coed ifanc yn llwyr.



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu
Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi
mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for
Rural Development: Europe Investing in
Rural Areas



Centre for Alternative Land Use
Canolfan Ddefnydd Tir Amgen



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Yn hydref 2009, plannwyd 8 o goed ychwanegol. Bwriedir parhau i ehangu'r berllan, gan blannu mwy o goed fel y bo'r sefyllfa ariannol yn caniatáu.

Yn yr ardal hon, dangosodd lan y technegau a ddefnyddir wrth dolcio'n ffurfiannol i sicrhau bod siâp ac adeiledd y coed ar eu gorau ar gyfer cynhyrchu a hel ffrwythau.

YR ARDD FURIOG A'R BERLLAN DDIFFAITH

Mae'r ardd furiog yn mynd yn ôl i ganol y 19^{eg} ganrif. Arferai wal ddeheuol yr ardd gludo'r dŵr o Afon Aber, a yrrai olwyn ddŵr wrth ymyl y tŷ. Yr ardd furiog oedd prif ardd ffrwythau'r tŷ, a cheid yno amrywiaeth eang o lwyni a ffrwythau cyrens, yn ogystal â choed afalau ac eirin. Nid oedd yr ardd wedi'i rheoli ers mwy na 15 mlynedd. Yn ystod yr amser hwn, roedd mieri wedi tyfu'n wyllt yn yr ardal. Mae'r rhain wedi tyfu trwy'r coed ffrwythau a throstynt i gyd. O ganlyniad, mae'r holl goed wedi brwydro i gael golau a digon o fwyd. Mae'r tyfiant newydd wedi'i gyfyngu i estyniadau crablyd iawn ar y canghennau eithaf. Yn is i lawr y coed, ceir tystiolaeth o heintiad eithaf difrifol gan lyslau gwlanog.

Mae'r rhaglen ar gyfer adfer yr ardal hon yn ddeublyg: cymerwyd brigau impiedig o'r coed sydd, yn ôl pob tebyg, y tu hwnt i'w hadfer. Impiwyd y rhain ar stociau gwraidd M26. Defnyddir y coed newydd hyn yn lle'r hen rai, gan gynnal trwy hynny'r un rhywogaethau. Defnyddir technegau tocio adferol ar y coed y credir y gellir eu hadfer. Mae hyn yn canolbwyntio ar adfywio'r coed, heb dynnu allan gymaint o hen bren fel y bydd y coed yn marw o sioc.

Rheolir yr isdyfiant yn fecanyddol, gan strimio/ trimio'n drwm ddwywaith y flwyddyn i atal y mieri rhag ail-sefydlu eu gafael ar y coed. O dipyn i beth, ceir gwared â rhywogaethau o goed nad oes mo'u heisiau yn yr ardd (e.e. ynn, sycamorwydd ac ysgaw). Yn y pen draw, gobeithir y bydd gan yr ardd furiog ryw ddwsin o goed ffrwythau cynhyrchiol.

YR ARDD GOEDWIG

Mae gan yr Ardd Goedwig amrywiaeth eang o goed ffrwythau a chnau, yn cynnwys afalau, cwins, gellyg, cnau almon, meryswydd, cnau Ffrenig a chastanwydd melys. Rheolir yr ardal hon gan Ardd Goedwig Bangor – sefydliad di-elw.

Amcan yr Ardd Goedwig yw dangos egwyddorion creu ecosystemau hunangynhaliol / garddio coedwigol. Yn y systemau hyn, rhoddir ystyriaeth i'r system yn ei chryswth, a'i lle a'i hadeiledd fertigol. Y coed sy'n ffurfio'r canopi, gyda'r llwyni a'r ffrwythau o wiail o danynt, a phlanhigion haen y tir o dan hynny. Mae Ian Sturrock yn weithgar yn rheolaeth gyfredol yr ardd. Yn ystod y gweithdy, eglurodd y modd y dewiswyd mathau o ffrwythau ar gyfer yr Ardd Goedwig, y modd y dewiswyd y gwreiddgyff, a'r hyn y mae eu rheoli'n barhaus yn ei olygu.